Rhan 4.2 - Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth

1. **CWMPAS**

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Safonau a'r holl bwyllgorau eraill.

2. **HAWLIAU YCHWANEGOL I WYBODAETH**

Nid yw'r rheolau hyn yn effeithio ar unrhyw nifer mwy o hawliau penodol i wybodaeth a gynhwysir mewn man arall yn y Cyfansoddiad hwn neu'r ddeddf.

3. **HAWLIAU I FYNYCHU CYFARFODYDD**

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd i gyd yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn y rheolau hyn yn unig.

4. **RHYBUDDION AM GYFARFOD**

Bydd y Cyngor yn rhoi o leiaf dri diwrnod clir o rybudd am unrhyw gyfarfod drwy bostio manylion am y cyfarfod yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac ar wefan y Cyngor.

5. **MYNEDIAD AT AGENDA AC ADRODDIADAU CYN Y CYFARFOD**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r agenda a'r adroddiadau ar gael i'r cyhoedd i'w harchwilio yn y swyddfa ddynodedig o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Os ychwanegir eitem at agenda yn ddiweddarach, bydd yr agenda ddiwygiedig (lle bo adroddiadau yn cael eu paratoi ar ôl i'r wys gael ei hanfon allan, bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod pob adroddiad o'r fath ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'r adroddiad wedi ei gwblhau a'i anfon at gynghorwyr) ar gael i'w harchwilio am yr amser y cafodd yr eitem ei hychwanegu at yr agenda.

6. **CYFLENWI COPÏAU**

Bydd y Cyngor yn cyflenwi copïau o:

(a) unrhyw agenda ac adroddiadau sy'n agored i'r cyhoedd eu harchwilio;
(a) (b) unrhyw ddatganiadau neu fanylion pellach sy'n angenrheidiol i nodi natur yr eitemau yn yr agenda; a

os yw'r Prif Weithredwr yn credu bod hynny'n fuddiol, copïau o unrhyw ddogfennau eraill a gyflenwyd i Gynghorwyr mewn cysylltiad ag eitem i unrhyw berson ar ôl talu tâl am bostio ac unrhyw gostau eraill, neu drwy'r post electronig

7. **MYNEDIAD AT GOFNODION AC ATI AR ÔL Y CYFARFOD**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau ar gael o'r canlynol am chwe blynedd ar ôl cyfarfod:

(a) cofnodion y cyfarfod neu gofnod o benderfyniadau a gymerwyd gan y Bwrdd Gweithredol, ac eithrio unrhyw ran o gofnodion trafodion pan nad oedd y cyfarfod ar agor i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei hystyried;

(b) crynodeb o unrhyw drafodion nad oeddynt ar gael i'r cyhoedd lle na fyddai'r cofnodion a fyddai'n agored i'w harchwilio yn rhoi cofnod rhesymol o deg a threfnus;

(c) agenda'r cyfarfod; a

(d) adroddiadau yn ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod ar agor i'r cyhoedd.

8. **PAPURAU CEFNDIR**

8.1 **Rhestr o bapurau cefndir**

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno ym mhob adroddiad restr o'r dogfennau hynny (a elwir yn bapurau cefndir) yn ymwneud â thestun yr adroddiad sydd yn ei farn ef/hi:

(a) yn datgelu unrhyw ffeithiau neu faterion y seilir yr adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad arno; a

(b)y dibynnwyd arnynt i raddau sylweddol wrth baratoi'r adroddiad ond nid yw hyn yn cynnwys gwaith a
gyhoeddwyd neu ddogfennau sy'n datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol (fel y diffiniwyd yn Rheol 10).

8.2 **Archwilio papurau cefndir gan y cyhoedd**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod un copi o bob un o'r dogfennau ar y rhestr o bapurau cefndir ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am bedair blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.

9. **CRYNODEB O HAWLIAU'R CYHOEDD**

Mae'r rheolau hyn yn grynodeb ysgrifenedig o hawliau'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd ac i archwilio a chopïo dogfennau fel sy'n ofynnol gan Adrannau 100 A – H ac atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
Bydd copiau yn cael eu cadw ac ar gael i'r cyhoedd yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Neuadd y Dref, Llanelli, Swyddfeydd Bwrdeisiol, Llandeilo, Neuadd y Dref, Rhydaman, Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman ac yn y prif lyfrgelloedd cyhoeddus yn yr un mannau. Mae'r wybodaeth ar gael hefyd ar wefan y Cyngor.

10. **GWAHARDD MYNEDIAD GAN Y CYHOEDD I GYFARFODYDD**

10.1 Cyfarfodydd cyhoeddus a phreifat o'r Bwrdd Gweithredol

Gall y Bwrdd Gweithredol gymryd penderfyniadau mewn perthynas â'i swyddogaethau a chynnal busnes ffurfiol mewn cyfarfod wedi ei ffurfio'n briodol sy'n cydymffurfio ag Erthygl 13 a'r rheolau gweithdrefnol hyn yn unig. Nid yw hyn yn atal y Bwrdd

Gweithredol rhag cynnal trafodaethau anffurfiol yn breifat, gyda neu heb swyddogion yn bresennol, ond ni fydd y cyfarfodydd hyn yn cymryd penderfyniadau.

10.2 Gwybodaeth gyfrinachol – gofyniad i wahardd y cyhoedd

Rhaid i'r cyhoedd gael eu gwahardd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes i'w drafod neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

10.3 Gwybodaeth eithriedig – hawl i wahardd y cyhoedd

Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes i'w drafod neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

Lle bydd y cyfarfod yn penderfynu ar hawliau neu rwymedigaethau sifil unrhyw un, neu yn effeithio'n andwyol ar eu meddiannau, mae Erthygl 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn sefydlu rhagdybiaeth y cynhelir y cyfarfod yn gyhoeddus oni bai fod gwrandawiad preifat yn angenrheidiol am un o'r rhesymau a nodwyd yn **Erthygl 6.**

10.4 Ystyr gwybodaeth gyfrinachol

Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan Adran o'r Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus drwy Orchymyn Llys.

10.5 Ystyr gwybodaeth eithriedig

Gwybodaeth sydd wedi'i chwmpasu ym mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn amodol ar yr amodau cymhwyso a dadansoddi a nodir yn Rhannau 5 a 6 o'r Atodlen y mae crynodeb ohonynt wedi eu nodi isod;

CATEGORI O WYBODAETH EITHRIEDIG	**CYMHWYSTER**
12. Gwybodaeth am unigolyn penodol	Prawf Budd y Cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.	Prawf Budd y Cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
14. Gwybodaeth am faterion ariannol neu fusnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno)	Nid yw gwybodaeth sy'n dod o dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig yn unol â'r paragraff hwnnw os bydd angen ei gofrestru o dan- y Ddeddf Cwmnïau 1985; y Ddeddf Cymdeithasau Llesiant 1974; y Ddeddf Cymdeithasau Llesiant 1992; Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus o 1965 i 1978; y Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986; neu y Ddeddf Elusennau 1993

	Prawf Budd y Cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
15. Gwybodaeth am unrhyw ymgynghoriadau neu drafodaethau, neu ymgynghoriadau neu drafodaethau bwriadedig, o ran unrhyw fater cysylltiadau llafur sy'n codi rhwng yr awdurdod neu Weinidog y Goron a gweithwyr neu ddeiliaid swydd o dan yr awdurdod.	Prawf Budd y Cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
16. Gwybodaeth y gellir honni braint gyfreithiol broffesiynol mewn perthynas â hi mewn achosion llys cyfreithiol	(Dim Prawf Budd y Cyhoedd)
17. Gwybodaeth sy'n datgelu bod yr awdurdod yn bwriadu: (a) rhoi o dan unrhyw ddeddfiad rybudd o dan neu yn rhinwedd yr hon y gosodir gofynion ar berson; neu (b) gwneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad.	Prawf Budd y Cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
18. Gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd mewn perthynas ag atal, archwilio neu erlyn trosedd.	Prawf Budd y Cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
(mewn perthynas â chyfarfod o'r pwyllgor safonau, neu is-bwyllgor o'r pwyllgor safonau, a gaiff ei alw i ystyried mater a gyfeiriwyd ato o dan ddarpariaethau adran 70(4) neu (5) neu 71(2) o Deddf Llywodraeth Leol 2000): 18A. Gwybodaeth y mae unrhyw rwymedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol 18B. Gwybodaeth sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â materion diogelwch cenedlaethol. 18C. Trafodaethau pwyllgor safonau neu is-bwyllgor o bwyllgor safonau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol wrth ddod i gasgliad ynghylch mater a gyfeiriwyd ato.	Prawf Budd y Cyhoedd yn gymwys (gweler isod)
	Nid yw gwybodaeth yn eithriedig os yw'n ymwneud â datblygiad arfaethedig y gall yr awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio iddo ei hun o dan Reoliad 3 Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992

Prawf Budd y Cyhoedd

Gwybodaeth sydd-
(a) yn dod o fewn paragraffau 12 i 15, 17 ac 18 uchod
(b) heb gael ei hatal rhag bod yn eithriedig yn unol â'r amodau cymhwyso uchod

Mae gwybodaeth yn eithriedig os a chyhyd, yn holl amgylchiadau'r achos, y mae'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

ESBONIADAU: CYMRU

(1) Yn Rhannau 4 a 5 a'r Rhan hon o'r Atodlen hon —

Ystyr "gweithiwr" yw person a gyflogir o dan gontract gwasanaeth;

Mae "materion ariannol neu fusnes" yn cynnwys gweithgareddau bwriadedig, yn ogystal â gweithgareddau'r gorffennol neu'r presennol;

Ystyr "mater cysylltiadau llafur" yw —

(a) unrhyw fater a nodwyd ym mharagraffau (a) i (g) o adran 218(1) o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Atgyfnerthu) 1992 (materion a all fod yn destun anghydfod undebol, o fewn ystyr y Ddeddf honno); neu

(b) unrhyw anghydfod am fater sy'n dod o fewn paragraff (a) uchod;

ac at ddibenion y diffiniad hwn bydd y deddfiadau y sonnir amdanynt ym mharagraff (a) uchod, ynghyd â'r newidiadau angenrheidiol, yn berthnasol i ddeiliaid swydd o dan yr awdurdod yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i weithwyr yr awdurdod;

Ystyr "deiliad swydd", mewn perthynas â'r awdurdod, yw deiliad unrhyw benodiadau swydd â thâl sydd yn neu all gael eu gwneud neu eu cadarnhau gan yr awdurdod neu gan unrhyw fwrdd ar y cyd y mae gan yr awdurdod gynrychiolaeth arno neu gan unrhyw berson sy'n dal unrhyw swydd o'r fath neu sy'n weithiwr yr awdurdod;

Ystyr "cofrestredig" mewn perthynas â gwybodaeth sy'n rhaid ei gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Adeiladau 1986, yw ei bod wedi'i chofrestru yn ffeil gyhoeddus unrhyw gymdeithas adeiladu (o fewn ystyr y Ddeddf honno).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn Rhannau 4 a 5 a'r Rhan hon o'r Atodlen hon at "yr awdurdod" yn gyfeiriad at y prif gyngor neu, yn ôl y galw, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor y mae angen penderfynu a oes gwybodaeth yn eithredig mewn perthynas â'i drafodion neu ddogfennau ac sy'n cynnwys cyfeiriad —

(a) yn achos prif gyngor, at unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyngor; a

(b) yn achos pwyllgor, at —

(i) unrhyw brif gyngor cyfansoddol;

(ii) unrhyw brif gyngor arall trwy yr hwn y gwneir penodiadau i'r pwyllgor neu y cyflawnir ei swyddogaethau gan y pwyllgor; a

(iii) unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o brif gyngor sy'n dod o fewn is-baragraff (i) neu (ii) uchod; a

(c) yn achos is-bwyllgor, at —

(i) y pwyllgor, neu unrhyw bwyllgor, y mae'n is-bwyllgor ohono; a

(ii) unrhyw brif gyngor sy'n dod o fewn paragraff (b) uchod mewn perthynas â'r

pwyllgor hwnnw".

11. GWAHARDD MYNEDIAD GAN Y CYHOEDD I ADRODDIADAU

Os yw'r Swyddog Monitro yn meddwl bod hynny'n addas, gall y Cyngor wahardd mynediad gan y cyhoedd i adroddiadau sydd yn ei farn ef neu hi yn ymwneud ag eitemau yn ystod yr hwn, yn unol â Rheol 10, y mae'r cyfarfod yn debygol o beidio â bod ar agor i'r cyhoedd. Nodir adroddiadau o'r fath fel rhai sydd "Ddim i'w cyhoeddi" ynghyd â'r categori o wybodaeth sy'n debygol o gael ei ddatgelu.

12. Y RHAGLEN WAITH AR GYFER Y DYFODOL

12.1 Cyfnod y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol

Paratoir y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol gan y Prif Weithredwr i ymdrin â chyfnod o un blwyddyn. Bydd yn cael ei diweddaru yn chwarterol.

12.2 Cynnwys y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol

Bydd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn cynnwys materion y mae'r Bwrdd Gweithredol, y pwyllgorau craffu a'r Cyngor llawn yn debyg o'u hystyried. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:

(a) yr amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau sy'n ffurfio rhan o'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi ac sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor, a pha gorff sydd i'w hystyried;

(b) yr amserlen ar gyfer ystyried unrhyw gynlluniau sy'n gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol;

(c) unrhyw faterion unigol y bwriada'r Bwrdd Gweithredol ymgynghori yn eu cylch cyn gwneud penderfyniad, a'r amserlen ar gyfer ymgynghori a phenderfynu;

(d) rhaglen waith y pwyllgorau craffu, i'r graddau fod hynny'n wybyddus.

Cyhoeddir y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef. Bydd y Prif Weithredwr yn cyhoeddi rhybudd mewn o leiaf un papur newydd a ddosberthir yn yr ardal ac ar wefan y Cyngor, yn nodi bod y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol wedi ei chyhoeddi ac yn rhoi manylion ynghylch ble y gellir ymgynghori â hi neu ei chael.

13. YMGYNGHORIAD YNGHYLCH ARGYMHELLION I'W HYSTYRIED GAN Y BWRDD GWEITHREDOL

13.1. Dylid caniatáu o leiaf 4 wythnos yn amserlen y cynllun ar gyfer y dyfodol, i ymgynghori gyda phwyllgorau craffu perthnasol ac aelodau wardiau lle mae mater i gael ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol, a lle nad yw'n un sydd angen sylw brys (fel y'i diffiniwyd isod) neu yn gyfrinachol neu yn eithriedig (fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 10).

13.2 Gall mater gael ei ystyried yn un brys lle roedd y digwyddiadau y cyfeiria atynt yn rhai na ellid eu rhagweld ar yr adeg diwethaf y cynhyrchwyd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol a bod angen penderfyniad o fewn 4 wythnos.

13.3 Ni all penderfyniad gael ei drin fel un brys oni bai fod y sawl sy'n cymryd y penderfyniad (os yn unigolyn) neu gadeirydd y corff sy'n gwneud y penderfyniad yn cael cytundeb cadeirydd pwyllgor craffu perthnasol na all gwneud y penderfyniad gael ei ohirio'n rhesymol. Os nad oes unrhyw gadeirydd o bwyllgor craffu perthnasol, neu os yw cadeirydd pob pwyllgor craffu perthnasol yn methu â gweithredu, yna bydd cytundeb Cadeirydd y Cyngor, neu yn ei absenoldeb ef/hi yr Is-Gadeirydd yn ddigon. Bydd unrhyw benderfyniadau a gymerir o dan y weithdrefn frys hon yn cael eu cofnodi fel rhai a gymerwyd heb ymgynghori yn y cofnod penderfyniadau.

14. COFNOD O BENDERFYNIADAU'R BWRDD GWEITHREDOL

14.1 Cofnod y penderfyniad

Gwneir cofnod ysgrifenedig o bob penderfyniad gweithredol a wneir gan y Bwrdd Gweithredol a'i bwyllgorau (os oes rhai) ac aelodau unigol, a phwyllgorau ar y cyd y bo eu haelodau i gyd yn aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol.

Bydd cofnod y penderfyniad hwn yn cynnwys datganiad ar gyfer pob penderfyniad, o'r canlynol:

- y penderfyniad a wnaed;
- y dyddiad y gwnaed y penderfyniad;
- y rhesymau am y penderfyniad hwnnw;
- unrhyw fudd personol a ddatganwyd;
- unrhyw ganiatâd i siarad a roddwyd gan bwyllgor safonau'r awdurdod;
- yr ymgynghori a wnaed cyn y penderfyniad ac os nad yw ymgynghoriad o'r fath wedi digwydd, y rhesymau pam.

14.2 Paratoi cofnod o'r penderfyniad

14.2.1 Bydd y Prif Weithredwr neu swyddog a ddynodir ganddo wrth fynychu unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol neu, lle bo aelod unigol wedi gwneud penderfyniad gweithredol, yn cynhyrchu cofnod o'r penderfyniad, fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod. Ni fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu hyd nes bo'r cofnod o'r penderfyniad hwnnw wedi ei gynhyrchu, yn ddarostyngedig i baragraff 14.2.2 isod.

14.2.2 Lle bo'r dyddiad erbyn yr hwn y mae'n rhaid gweithredu penderfyniad gweithredol a wnaed gan aelod unigol yn peri bod cydymffurfio â 14.2.1 uchod yn anymarferol, yna gellir gweithredu'r penderfyniad os oes gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad gytundeb Cadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol, neu os nad oes person o'r fath neu fod y person hwnnw yn methu â gweithredu, Cadeirydd y Cyngor, neu os nad oes Cadeirydd o bwyllgor craffu perthnasol neu'r Cyngor, Is-Gadeirydd y Cyngor, bod gwneud y cyfryw benderfyniad yn fater brys ac na ellir yn rhesymol ei ohirio.

15. PENDERFYNIADAU GAN AELOD UNIGOL O'R BWRDD GWEITHREDOL

15.1 Adroddiadau y bwriedir iddynt gael eu hystyried

Lle bo aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol yn derbyn adroddiad y mae ef/hi yn bwriadu ei gymryd i ystyriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniad, yna ni fydd ef/hi yn gwneud y penderfyniad tan o leiaf 3 diwrnod clir ar ôl derbyn yr adroddiad hwnnw.

15.2 Darparu copïau o adroddiadau i bwyllgorau craffu

Wrth roi adroddiad o'r fath i unigolyn sy'n gwneud penderfyniad, bydd y Prif Weithredwr yn rhoi copi ohono i Gadeirydd ac aelodau pob pwyllgor craffu perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac yn sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus yr un pryd.

15.3 Cofnod o benderfyniad unigol

Bydd y rheolau ynghylch cofnodi penderfyniadau ym mharagraff 14 yn berthnasol.

16. MYNEDIAD AELODAU PWYLLGORAU CRAFFU I DDOGFENNAU

16.1 Hawliau mynediad

Yn ddarostyngedig i Reol 16.2 isod, bydd gan bwyllgor craffu hawl mynediad at unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y Bwrdd Gweithredol neu ei bwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag

(a) unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol (neu ei bwyllgorau os oes rhai); neu
(b) unrhyw benderfyniad a wnaed gan aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol.

16.2 Cyfyngiad ar hawliau

Ni fydd gan bwyllgor craffu hawl i unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys:
gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig, neu gyngor a ddarperir gan ymgynghorydd neu gynorthwy-ydd gwleidyddol,
oni bai fod y wybodaeth honno yn berthnasol i weithred neu benderfyniad sy'n cael ei adolygu neu ei archwilio neu unrhyw adolygiad a gynhwysir yn rhaglen waith y pwyllgor hwnnw.

17. HAWLIAU MYNEDIAD YCHWANEGOL AR GYFER AELODAU

17.1 Hawliau mynediad

Bydd gan bob aelod hawl i archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y Bwrdd Gweithredol neu ei bwyllgorau os oes rhai ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol neu gan aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol.

17.2 Cyfyngiad ar hawliau

Ni fydd gan aelod hawl i unrhyw ran o ddogfen lle byddai'n datgelu gwybodaeth eithriedig sy'n dod o fewn paragraffau 1 i 6, 9, 11, 12 ac 14 o Ran 1, Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, neu yn datgelu cyngor ymgynghorydd neu gynorthwy-ydd gwleidyddol.

17.3 Natur hawliau

Mae'r hawliau hyn sy'n perthyn i aelod yn ychwanegol at unrhyw hawl arall a all fod ganddo ef/ganddi hi.